**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 19 Medi 2016 yn Siambr Cyngor Sir Ddinbych, Rhuthun. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y bore.

**YN BRESENNOL**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| P R Lewis (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| B Cowie | Cyngor Sir Ddinbych |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| M Holland | Cyngor Sir Ddinbych |
| A M Jones | Cyngor Gwynedd |
| R O Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| P Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| J Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C Everett (Clerc a Swyddog Monitro); R Simmons ac R Fairhead (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G Brandrick (Uwch Reolwr Safonau Proffesiynol a Gwasanaeth); S Millington (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); C Nott (Rheolwr Hyfforddi a Datblygu Dros Dro); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); S Forrest (Cyfrifydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau) ac S Jones (Cynorthwyydd Cyswllt Aelodau).

**YMDDIHEURIADAU**

| | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Y Cyng. L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. C Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. D MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. P Prendergast | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. D Taylor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. G G Williams | Cyngor Gwynedd |
| D Docx | Dirprwy Brif Swyddog Tân a Thrysorydd am y Tro |

Fe wnaeth yr Aelodau nodi hefyd fod y Dirprwy Brif Swyddog Tân yn absennol ac roeddent yn anfon eu dymuniadau gorau ati. Hefyd, dywedodd y PST wrth yr Aelodau fod Chris Nott wedi cael ei benodi dros dro tan 2017 i swydd Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu yn dilyn ymddeoliad Gareth Griffiths a bod Peter Davis wedi cael ei benodi'n barhaol i swydd Pennaeth yr Ystafell Reoli.

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 20 MEHEFIN 2016

2.1 Cafodd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 20 Mehefin eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod gwir a chywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 6.8 – gwybodaeth gan ardaloedd eraill lle'r oedd carchar yn y cyffiniau – cadarnhaodd y PST y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno i'r Aelodau gyda chanlyniad y broses ymgynghori yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

4 MATERION BRYS

4.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd yr adroddiad yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth y Cyng. M Ll Davies a'r Cyng. P R Lewis iddynt rhwng Mehefin a Medi 2016 fel Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 ASESIAD DRAFFT O BERFFORMIAD YR AWDURDOD YN 2015-16

6.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân yr asesiad drafft o berfformiad yr Awdurdod yn 2015-16; roedd yr asesiad wedi cael ei lunio yn unol ag Adran 15 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 er mwyn rhoi, mewn un ddogfen, gyfrif o weithgareddau a pherfformiad yr Awdurdod yn 2015-16. Roedd hefyd yn rhoi crynodeb o berfformiad yr Awdurdod mewn perthynas â dangosyddion penodol cenedlaethol a lleol, a mesurau llwyddiant.

6.2 Nodwyd bod ambell fwlch yn y ddogfen o ran perfformiad data cymaradwy gydag ATAau yn Lloegr oherwydd na fydd data perfformiad Lloegr yn cael eu cyhoeddi tan ddiwedd mis Medi; felly, caiff y graffiau eu diweddaru cyn i'r ddogfen gael ei chyhoeddi.

6.3 Cafodd yr aelodau gyfle i drafod y ddogfen, a chadarnhawyd yr wybodaeth a ganlyn i ymateb i gwestiynau'r Aelodau:

6.4 Mae proses gaffael ar y cyd yn ei lle ledled Cymru ar gyfer prynu cyfarpar a cherbydau ysgafn, a chaiff y broses hon ei goruchwylio gan y Pwyllgor Materion Cenedlaethol.

6.5 Cynllun prentisiaethau diffoddwyr tân – mae'r garfan gyntaf yn ei lle ac maent yn mynd yn eu blaenau'n dda drwy'r rhaglen brentisiaethau. O ran ymestyn y rhaglen, nodwyd bod newidiadau ar y gweill i'r rhaglen brentisiaethau ledled y D.U. ac felly nid oes sicrwydd sut y bydd yn gweithio yn y dyfodol. Bydd y PST a'r Clerc yn cwrdd ar wahân i drafod effaith y newidiadau ar y cynllun prentisiaethau yn GTAGC.

6.6 Roedd yr Aelodau'n falch o nodi bod Gogledd Cymru ymhlith y rhai sy'n perfformio orau o ran cynnal archwiliadau diogelwch yn y cartref ac mae'n bwysig bod y neges atal tân yn parhau i fod yn flaenllaw yn holl weithgarwch y Gwasanaeth. Hefyd, roedd yr Aelodau'n canmol gweithredwyr yr Ystafell Reoli am fod yn gallu canfod y galwadau diangen maleisus yn unol â'r polisi herio galwadau.

6.7 **PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo'r asesiad drafft o berfformiad yr Awdurdod yn 2015-16 i'w gyhoeddi cyn y dyddiad statudol, sef 31 Hydref 2016;**

**(ii) nodi y bydd taflen gryno yn cael ei chynhyrchu hefyd ac y caiff ei chyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn galendr.**

7 YMGYNGHORIAD YNGHYLCH AMCANION GWELLA A LLESIANT 2017-18

7.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo cynnwys dogfen ymgynghori ynghylch yr Amcanion Gwella a Llesiant drafft ar gyfer 2017-18.

7.2 Ar ôl cael cymeradwyaeth yr Aelodau i'r pedwar amcan gwella a llesiant drafft yn y cyfarfod ym mis Mehefin 2016, mae dogfen ymgynghori ddrafft wedi cael ei llunio, sy'n esbonio beth yw amcanion arfaethedig yr Awdurdod ac yn gwahodd ymatebion erbyn 12 Rhagfyr 2016. Llongyfarchwyd yr awdur gan yr Aelodau am gynhyrchu dogfen sy'n hawdd i'w deall ac yn defnyddio termau syml.

7.3 Esboniodd y Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol i'r Aelodau beth yw'r strategaeth gyfathrebu. Nodwyd y bydd y ddogfen llawn a'r crynodeb gweithredol ar gael ar y wefan ac y byddant yn cael eu dosbarthu i nifer fawr o gyrff. Rhoddir cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad drwy'r cyfryngau cymdeithasol a bydd pobl yn gallu llenwi holiadur byr ar-lein. Mae'r swyddogion yn gweithio gyda sefydliadau sy'n bartneriaid inni a byddant yn hyrwyddo ac yn tynnu sylw at ymgynghoriadau ei gilydd dros yr ychydig fisoedd nesaf.

7.4 Mae'n hanfodol fod yr Aelodau'n cymryd rhan yn y gwaith o hyrwyddo'r ymgynghoriad er mwyn i'w cyd-gynghorwyr ddeall yn well beth yw'r rhesymeg y tu ôl i'r amcanion, bydd hynny yn ei dro yn gymorth yn nhrafodaethau'r cynghorau ynglŷn â'u cyllidebau pan fyddant yn cael y ceisiadau am gyfraniadau gan yr ATA. Hefyd, gofynnwyd i'r Aelodau hyrwyddo ac annog y cyhoedd i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

7.5 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cynnwys y ddogfen ddrafft, "Gwasanaethau tân ac achub fforddiadwy ar gyfer Gogledd Cymru", i ddiben ymgynghori.**

8 DATGANIAD O GYFRIFON 2015-16

8.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo datganiad archwiliedig o gyfrifon 2015-16 a'r datganiad llywodraethu blynyddol. Hefyd, roedd yr Aelodau wedi cael copi o adroddiad archwilio datganiadau ariannol ac roedd Amanda Hughes o Swyddfa Archwilio Cymru yn bresennol i gyflwyno'r canfyddiadau i'r Aelodau.

8.2 Esboniodd Ms Hughes fod Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol erbyn hyn am archwilio'r agweddau ariannol ar yr ATAGC, yn ogystal â'r agweddau perfformiad. Cadarnhaodd Ms Hughes fod yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu rhyddhau adroddiad archwiliad diamod ar y datganiadau ariannol, ac yna aeth yn ei blaen i roi crynodeb i'r Aelodau o'r gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad a'r argymhellion sy'n deillio o'r gwaith archwilio ariannol yn 2015-16 mewn perthynas â gwella'r gofrestr risgiau.

8.3 Cadarnhaodd y Cyng. A M Jones fod y Pwyllgor Archwilio wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r datganiad o gyfrifon a'r adroddiad archwilio'r datganiadau ariannol yn ei gyfarfod ar 12 Medi 2016. Er nad oedd gan y Pwyllgor Archwilio unrhyw sylwadau arwyddocaol ac nad oeddent yn gallu canfod unrhyw risgiau mawr yn yr adroddiad, roedd yr Aelodau wedi mynegi pryder am y materion a ganfuwyd mewn perthynas â'r gofrestr asedau; rhoddwyd sicrwydd fod y swyddogion eisoes yn dechrau gweithredu'r newidiadau o ganlyniad i'r argymhellion a wnaed ac felly roedd y Pwyllgor Archwilio yn fodlon argymell bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

8.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo datganiad archwiliedig o gyfrifon 2015-16;**

**(ii) nodi y bydd canfyddiadau'r adroddiad archwilio datganiadau ariannol yn cael eu rhoi ar waith yn llwyr.**

9 ALLDRO AMCANOL 2016-17

9.1 Cyflwynodd y PST yr adroddiad a oedd yn rhoi alldro amcanol wedi'i amcangyfrif am flwyddyn ariannol 2016-17, ac esboniodd beth yw'r amrywiadau i'r gwahanol benawdau yn y gyllideb.

9.2 Yn ôl yr arwyddion ar hyn o bryd, ni fydd unrhyw danwariant a bydd angen £484,320 o gronfeydd wrth gefn i gefnogi'r gyllideb ar gyfer 2016/17. Yn ystod y broses o osod y gyllideb, amcangyfrifwyd y byddai angen £760,417 o gronfeydd wrth gefn er mwyn gosod cyllideb fantoledig. Nodwyd bod y gwariant mewn perthynas â'r gyllideb yn cael ei fonitro'n agos gan staff y Gwasanaeth Tân ac Achub a thynnir sylw at unrhyw amrywiadau neu amrywiadau disgwyliedig cyn gynted ag y bônt yn digwydd er mwyn gallu gosod mesurau yn eu lle i sicrhau nad oes unrhyw berygl ariannol i'r Awdurdod.

9.3 Nodwyd bod yr adroddiad alldro amcanol erbyn hyn, yn dilyn archwilio'r datganiad o gyfrifon, yn cynnwys gwybodaeth am y grantiau a ddyfarnwyd i'r Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol er mwyn i'r aelodau gael yr wybodaeth gyflawn am sefyllfa ariannol yr Awdurdod. Atgoffwyd yr Aelodau beth yw'r safbwynt y cytunodd yr Awdurdod arno mewn perthynas â gweithgareddau sy'n cael arian grant, sef bod y gweithgaredd yn dod i ben os daw'r arian grant i ben. Yn 2015-16, oherwydd bod 20% o ostyngiad yn yr arian

grant tuag at weithgareddau diogelwch cymunedol, roedd yr Awdurdod wedi blaenoriaethu ei ddewisiadau er mwyn gallu parhau â phrosiect y Ffenics a gwaith y tîm lleihau llosgi bwriadol, ac unwaith eto roedd yr Aelodau'n ailddatgan eu cefnogaeth i'r prosiectau hyn.

9.4 **PENDERFYNWYD nodi sefyllfa ariannol yr Awdurdod.**

10 DANGOSYDDION ARIANNOL A RHEOLI'R TRYSORLYS

10.1 Cyflwynodd y PST yr adroddiad a oedd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y dangosyddion ariannol a rheoli'r trysorlys. Fel gyda'r datganiad o gyfrifon, nodwyd bod aelodau'r Pwyllgor Archwilio, yn y cyfarfod ar 12 Medi 2016, wedi adolygu'r cynnwys yn fanwl ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau pwysig, nid oeddent yn gallu canfod unrhyw risgiau mawr yn yr adroddiad, a byddent yn argymell bod yr Awdurdod yn ei gymeradwyo.

10.2 **PENDERFYNWYD**
**(i) cymeradwyo'r dangosyddion ariannol diwygiedig;**
**(ii) nodi'r partïon presennol i gontract;**
**(iii) nodi'r benthyciadau newydd.**

11 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL (CYFNOD ADRODD 2015-2016)

11.1 Cyflwynodd y PSTC Simmons yr adroddiad a oedd yn ceisio cael cymeradwyaeth yr aelodau i Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (cyfnod adrodd 2015-2016) i ymateb i ofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

11.2 Dyma'r pedwerydd adroddiad blynyddol, ac roedd yn rhoi amlinelliad o'r cynnydd wrth gyflawni pob un o amcanion cydraddoldeb yr Awdurdod a'r trefniadau sydd yn eu lle i ganfod a chasglu'r wybodaeth berthnasol.

11.3 Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau am yr adroddiad ac roeddent yn holi a fu cynnydd yn nifer y digwyddiadau'n targedu lleiafrifoedd ethnig yn y misoedd diweddar; esboniwyd y byddai'r heddlu'n ymdrin ag unrhyw ddigwyddiadau troseddol a digwyddiadau'n ymwneud â thân ac y byddent yn gweithio'n agos â'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol. Fe wnaeth yr Aelodau ailddatgan cefnogaeth yr Awdurdod i atal achosion o losgi bwriadol, gan ddweud y byddent yn falch o gael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am y gwaith a wneir i leihau llosgi bwriadol.

11.4 **PENDERFYNWYD**
**(i) nodi cynnwys yr adroddiad;**
**(ii) cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015-2016, i'w gyhoeddi ar wefan y Gwasanaeth.**

12 Y BROSES O BENODI I SWYDD TRYSORYDD

12.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y trefniadau ar gyfer recriwtio i swydd wag Trysorydd.

12.2 Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r broses benodi, a nodwyd mai penodiad gan yr aelodau fyddai hwn felly byddai angen cynnull Pwyllgor gydag un aelod o'r Panel Gweithredol i gynrychioli pob awdurdod lleol.

12.3 Ar ôl trafod y trefniadau a'r dyddiadau dan sylw, **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r broses arfaethedig fel yr amlinellir yn yr adroddiad.**

13 RHAGLEN GYFALAF

13.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn ceisio cael cymeradwyaeth yr aelodau i addasiadau cyfalaf yn ystod y flwyddyn gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a hynny yn unol â gofynion prosiectau. Bydd hyn yn cynnwys trosglwyddo cyfalaf yng nghanol y flwyddyn i ymorol am gyllid i rai prosiectau trawffurfiadol.

13.2 Roedd adroddiadau blaenorol ar y rhaglen gyfalaf wedi canolbwyntio ar raglen ystadau'r Awdurdod ac wrth i'r rhaglen ddirwyn i ben ystyrid ei bod yn amser da i dynnu sylw'r aelodau at agweddau eraill ar y rhaglen gyfalaf. Dyma fanylion y trosglwyddiadau angenrheidiol:

13.3 Prosiect gorchymyn a rheoli – mae'r system gorchymyn a rheoli yn mynd i gael ei disodli wrth baratoi ar gyfer y rhaglen ESMCP (cysylltiadau symudol y gwasanaethau brys). Amcangyfrifid mai £600k oedd costau cychwynnol y prosiect; fodd bynnag, yn dilyn y broses dendro a llofnodi contract cyflenwyr, mae'r costau tua £1.2 miliwn. £630k yw'r cyfalaf presennol a ddyrannwyd i'r prosiect. Er mwyn ariannu rhan o'r costau ychwanegol, cynigir trosglwyddo £477,633 o raglen gyfalaf y Fflyd. Dyrannwyd y ffigwr hwn i ariannu peiriant cyrraedd yn uchel nad oes mo'i angen mwyach. Bydd angen chwistrelliad pellach o gyfalaf gwerth £92k yn ystod blwyddyn ariannol 2016-17.

13.4 Offer anadlu newydd - yn 2015, fe wnaeth y Gwasanaeth gwblhau dau brosiect cyn pryd; sef caffael helmedi tân a phibell dân. Roedd hyn yn rhyddhau symiau cyfalaf gwerth £83,613 a £18,029. Argymhellir bod y cyfalaf a ddyrannwyd i'r prosiectau hyn yn cael ei drosglwyddo i'r rhaglen offer anadlu newydd gan nad yw'r gyllideb a ddyrannwyd i'r prosiect ar hyn o bryd yn ddigonol.

13.5 Mae mentrau ar y cyd rhwng y tri gwasanaeth wedi gosod gofynion ychwanegol ar yr angen am gerbydau priodol ar gyfer diffoddwyr tân gwledig y system amser cyflawn (WDS) a'r cynllun treialu cyd-ymateb. Er mwyn cefnogi'r mentrau hyn, argymhellir trosglwyddo £150k o beiriannau arbennig i ddarpariaethau cyfalaf.

13.6 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r ceisiadau i symud arian cyfalaf fel a ganlyn:**

| **Swm** | **Trosglwyddwyd o** | **Trosglwyddwyd i** |
|---|---|---|
| £477,633 | Y Fflyd | Prosiect gorchymyn a rheoli |
| £101,642 | Helmedi tân a phibell dân newydd | Offer anadlu newydd |
| £150,000 | Peiriant arbennig | Darpariaethau cyfalaf ar gyfer prosiect cydweithredol rhwng y tri gwasanaeth, y cynllun treialu cyd-ymateb, a'r system diffoddwyr tân amser cyflawn gwledig. |

14 COFNODION CYFARFODYDD

14.1 Cafodd cofnodion cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2016 eu cyflwyno er gwybodaeth.

14.2 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion er gwybodaeth.**